

Cod Ymddygiad Lleol ar gyfer

Hysbysiadau Cosb Benodedig mewn Addysg

Awdur	Sarah Allard
Ymgygoreion	Andy Rothwell, EWS team, Claire Lacey, Cllr Richard Clarke
Awdurdodwyd Gan ELT (Dyddiad)	Gorffennaf 2024
Cyhoeddedig (Dyddiad)	Medi 2024
Adolygiad Nesaf (Dyddiad)	Medi 2026



in partnership with



1. Fframwaith Cyfreithiol

- 1.1. Mae'r gyfraith yn grymuso Swyddogion dynodedig yr Awdurdod Lleol (ALI), penaethiaid, yn cynnwys eu dirprwyon enwebedig a'r Heddlu, i gyflwyno Hysbysiadau Cosb Benodedig i rieni plant sydd yn absennol heb awdurdod o'r ysgolion sydd o fewn ardal Consortiwm De Ddwyrain Cymru.

Mae'r rheolau sydd yn rheoli gweithredu'r fath bwerau a'r ffactorau y dylid eu hystyried wrth gyflwyno Hysbysiad Cosb Benodedig wedi eu hamlinellu yn:

- Neddf Addysg 1996;
- Deddf Addysg ac Arolygiadau 2006;
- Rheoliadau Addysg (Hysbysiadau Cosb) (Cymru) 2013

Mae'n gyfrifoldeb ar Gonsortiwm De Ddwyrain Cymru i ddatblygu protocol y bydd yr holl asiantaethau sy'n bartneriaid a gafodd eu henwi yn y ddeddfwriaeth yn gweithio iddo.

2. Sail resymegol

- 2.1. Mae Adran 7, Deddf Addysg 1996 yn datgan:
- “Bod dyletswydd ar rieni pob plentyn o oed ysgol gorfodol i sicrhau ei fod ef neu hi yn cael addysg llawn amser ac effeithlon sy'n addas i oed, gallu a doniau'r plentyn, ac unrhyw anghenion addysgol arbennig sydd ganddo ef neu ganddi hi, naill ai drwy bresenoldeb rheolaidd yn yr ysgol neu fel arall.”
- 2.1.1. Mae mynychu'r ysgol neu ddarpariaeth arall, a hynny yn rheolaidd ac yn brydlon yn ofyniad cyfreithiol ac yn hanfodol o ran galluogi plant i gyflawni eu cyraeddiadau addysgol a'r cyfleoedd sydd ar gael ar eu cyfer, a hynny i'r eithaf.
- 2.1.2. Dengys tystiolaeth mai'r plant sydd â phresenoldeb isel sydd yn annhebygol o lwyddo'n academiaidd a'u bod yn fwy tebygol o beidio â bod mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant (NEET) pan fyddant yn gadael yr ysgol. Mae'r bobl ifanc hynny nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant fel arfer yn dangos mai diffyg presenoldeb neu absenoldebau cyson oedd eu hanes ym mlynnyddoedd 10 ac 11.
- 2.1.3. Mae Adran 444 Deddf Addysg 1996, yn nodi mai trosedd o du'r rheini yw peidio â sicrhau bod eu plentyn yn mynychu'r ysgol y maen nhw wedi cofrestru ynddi, a lle na chaniateir absenoldebau.
- 2.1.4. Mae'r diffiniad o "rhiant" yn cynnwys rhieni biolegol, p'un ai ydynt yn briod ai peidio, gan gynnwys unrhyw berson, er nad yw'n rhiant biolegol i'r plentyn, â chyfrifoldeb rhiant a/neu ofal am blentyn neu berson ifanc.
- 2.1.5. Mar ymyrraeth wedi ei dargedu yn chwarae rôl hollbwysig wrth fynd ati i ddatrys materion fel presenoldeb gwael yn yr ysgol, fodd bynnag, pan na fydd hyn yn cael yr effaith a ddymunir, mae yna nifer o sancsiynau ar gael i alluogi Awdurdodau Lleol (ALI) i geisio sicrhau gwelliannau.
- 2.2. Mae Hysbysiadau Cosb Benodedig yn un o'r sancsiynau sydd ar gael ar gyfer y math yma o drosedd ac maent yn cynnig modd o ymyrryd mewn ffordd addas ac effeithiol er wyn gwella lefelau'r absenoldeb heb awdurdod, cyn

iddynt fwrw gwreiddiau a dod yn fynych tra'n lleihau'r angen am erlyniadau maith a chostus.

- 2.3. Bydd Hysbysiadau Cosb Benodedig yn cael eu cyflwyno mewn achosion pan na fydd rhieni yn cydweithredu â'r broses, neu pan na fyddant yn cydweithredu'n ddigonol i ddatrys y broblem. Byddant yn cael eu defnyddio fel modd o roi cefnogaeth i rieni i gyflawni eu cyfrifoldebau yn ôl y gyfraith, a dim ond pan fydd y defnydd ohonynt, o fewn disgwyliad rhesymol, yn sicrhau y bydd presenoldeb eu plant yn yr ysgol yn gwella.

3. Polisi a Chyhoeddusrwydd.

- 3.1. Bydd Polisiâu Presenoldeb yr Ysgol yn cynnwys gwybodaeth ynghylch cyflwyno Hysbysiadau Cosb Benodedig a chânt eu dwyn at sylw'r rhieni.

4. Monitro ac adolygu.

Bydd Consortiwm De Ddwyrain Cymru a'r Awdurdodau Lleol yn monitro a gwerthuso effeithiolrwydd Hysbysiadau Cosb Benodedig yn flynyddol a diwygio'i strategaeth gorfodi cyffredinol fel y bo'n briodol. Bydd adroddiadau ar gael i Gyfarwyddwyr y Consortiwm, Penaethiaid Gwasanaethau a Phwyllgor Strategaeth yr Awdurdod Lleol a Llywodraeth Cymru yn ôl y gofyn.

Atodiadau

Atodiad 1	Protocolau a gweithdrefnau mewn perthynas â Hysbysiadau Cosb Benodedig
Atodiad 2	Llythyr ymgynghorol i'w gyhoeddi gan ysgolion
Atodiad 3	Rhestr wirio Cais am Hysbysiad Cosb Benodedig (i'w chyflwyno gyda'r Cais) - Absenoldeb Heb Awdurdod
Atodiad 4	Cais am Hysbysiad Cosb Benodedig – Absenoldeb Heb Awdurdod
Atodiad 5	Rhestr wirio ceisiadau Hysbysiad Cosb Benodedig ar gyfer Absenoldebau heb awdurdod (i'w gyflwyno gyda'r cais) - Absenoldeb Heb Awdurdod
Atodiad 6	Ffurflenni Absenoldeb heb Awdurdod yn ystod tymor
Atodiad 7	Pro-forma Hysbysiad Cosb
Atodiad 8	Deddfwriaeth berthnasol
Atodiad 9	Pro-forma ysgolion

Atodiad 1

Protocolau a gweithdrefnau mewn perthynas â Hysbysiadau Cosb Benodedig

Cyflwyno Hysbysiad Cosb Benodedig

- Mewn achosion o absenoldeb heb awdurdod, a hynny'n unig y ceir cyflwyno Hysbysiad Cosb Benodedig;
- Cyfyngir yr Hysbysiadau Cosb Benodedig i un hysbysiad fesul rhiant i ddisgybl mewn blwyddyn academaidd;
- Mewn achosion lle mae yna mwy nag un disgybl sy'n dangos presenoldeb gwael, mewn teulu, gellir cyflwyno hysbysiadau i fwy nag un plentyn.
- Ni fydd cyfyngiad ar nifer yr adegau y gall rhiant dderbyn rhybudd ffurfiol ynghylch y posibilrwydd o Hysbysiad Cosb Benodedig

Gellir ystyried bod Hysbysiadau Cosb Benodedig yn briodol pan:

- Fydd o leiaf 10 sesiwn (5 diwrnod ysgol) yn cael eu colli o ganlyniad absenoldeb heb awdurdod yn ystod y tymor. Nid oes rhaid iddynt fod yn olynol;
- Bydd absenoldebau heb awdurdod o o leiaf 10 sesiwn (5 diwrnod ysgol) oherwydd gwyliau yn ystod y tymor, neu oedi cyn dychwelyd i'r ysgol yn dilyn gwyliau ymestynnol, neu
- Pan fydd y disgybl yn cyrraedd yr ysgol yn hwyr, a hynny'n gyson, h.y. ar ôl cau'r gofrestr. Yn ei ystyr presennol mae 'cyson' yn golygu cyrraedd o leiaf deg sesiwn yn hwyr;
- Triwantiaeth, pan daw'r plentyn i sylw'r heddlu neu'r cyhoedd yn ystod oriau ysgol am fod yn absennol o'r ysgol, heb reswm derbyniol.

Ystyriaethau ac Aseiad ynglŷn â chyflwyno Hysbysiad Cosb Benodedig.

Bydd Penaethiaid, eu dirprwyon enwebedig a'r Gwasanaeth Lles Addysg (GLIA) yn ystyried y canlynol wrth bennu p'un ai dylid cyflwyno Hysbysiad Gosb Benodedig:

- Lefel yr absenoldeb;
- Unrhyw ystyriaethau'n ymwneud â chydaddoldeb sy'n ymwneud â'r plentyn neu'r teulu (fel y rhestrwyd yng Nghynllun Cydraddoldeb Strategol y Cyngor);
- Unrhyw Anghenion Addysgol Arbennig a neu Anghenion Dysgu Ychwanegol (AAY). Dylai ALI ystyried p'un ai yw problemau mynychu yn gysylltiedig ag ADY y disgybl. Dylai ysgolion fedru dangos eu bod wedi cynnig darpariaeth sy'n briodol i anghenion y disgybl, a allai gynnwys ystyried cymorth drwy 'Gweithredu gan yr Ysgol', 'Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy' neu gwblhau aseiad statudol mewn cydweithrediad â'r ALI.
- Hanes y materion presenoldeb a'r camau a ddilynwyd;

- Canllawiau Llywodraeth Cymru (LIC);
- Effeithiolrwydd tebygol Hysbysiadau Gosb Benodedig fel arf i sicrhau cydymffurfiad;
- Lefel ymrwymiad/cydweithrediad rhiant;
- Unrhyw ystyriaeth arall sy'n rhesymol.

Y drefn ar gyfer cyflwyno Hysbysiadau Gosb Benodedig

Y swyddogion a ddynodwyd yn y Gwasanaeth Lles Addysg fydd yr unig unigolion a ganiateir i gyflwyno Hysbysiadau Cosb Benodedig, er mwyn sicrhau eu bod yn gyson ac yn cael eu cyflwyno'n deg ac er mwyn cynnal perthynas dda gyda'r rhieni a sicrhau eu bod yn atgyfnerthu unrhyw gosbau gorfodi eraill.

Ni fydd Hysbysiadau Cosb Benodedig yn cael eu cyflwyno fel cam sydyn yn y fan a'r lle ee yn ystod cyrch triwantiaeth. Bydd hyn yn galluogi swyddogion i sicrhau bod yr holl dystiolaeth angenrheidiol yn ei lle, a chyfyngu ar y risgiau iechyd a diogelwch i unigolion.

Presenoldeb Gwael Ysbeidiol – y dystiolaeth angenrheidiol

- COPI O'R CYLCHLYTHYR BLYNYDDOL NEU OHEBIAETH a anfonwyd at yr holl rieni/gofalwyr yn ystod y flwyddyn academaidd gyfredol, sy'n nodi'n glir y gall rhieni gael Hysbysiad Cosb Benodedig am absenoldeb anawdurdodedig yn ystod y tymor ysgol. Rhaid bod y dyddiad ar y cylchlythyr neu'r ohebiaeth cyn dyddiad y tramgwydd.
- COPI O LYTHYRAU ANELU 1 A 2, y Cynllun Gweithredu Presenoldeb ac unrhyw waith papur adolygu.
- COPI O FFURFLEN ATGYFEIRIO Y GWASANAETH LLES ADDYSG.
- CRONOLEG LAWN O DDIGWYDDIADAU, yn dangos yr holl gyfathrebu a chyfarfodydd gyda'r rhiant/gofalwr.
- COPI O'R LLYTHYR RHYBUDD HYSBYSIAD COSB (hysbysiad cyngori) yn dweud wrth y rhiant/gofalwr am yr absenoldebau anawdurdodedig parhaus, ac y gellir gofyn am hysbysiad cosb gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen ac y gallai'r Cyngor gyhoeddi'r hysbysiad o'r fath, os oes unrhyw absenoldeb anawdurdodedig pellach. (Rhaid bod dyddiad y cyfnod absenoldeb y mae'r atgyfeiriad hwn yn cyfeirio ato, ar y llythyr hwn).
- TYSTYSGRIF PRESENOLDEB SY'N RHYCHWANTU 'CYFNOD Y TRAMGWYDD' YN UNIG – h.y. y cyfnod y gofynnir am yr hysbysiad cosb ar ei gyfer. Rhaid i'r dystysgrif hon gael ei llofnodi a'i dyddio gan y Pennaeth.
- TYSTYSGRIF PRESENOLDEB AR GYFER Y 12 MIS DIWETHAF wedi'i llofnodi a'i dyddio gan y Pennaeth. Gwnewch yn siŵr nad oes codau 'N' gan y dylai unrhyw beth nad oes rheswm ar ei gyfer fod wedi'i nodi gydag 'O'.

UNRHYW DYSTIOLAETH YCHWANEGOL MEWN PERTHYNAS Â'R ABSENOLDEB, h.y. llythyr neu neges gan riant ac ati.

Absenoldeb Anawdurdodedig yn ystod y Tymor Ysgol – y dystiolaeth angenrheidiol

- COPI O'R CYLCHLYTHYR BLYNYDDOL NEU OHEBIAETH a anfonwyd at yr holl rieni/gofalwyr yn ystod y flwyddyn academaidd gyfredol, sy'n nodi'n glir y gall rhieni gael Hysbysiad Cosb Benodedig am absenoldeb anawdurdodedig yn ystod y tymor ysgol. Rhaid bod y dyddiad ar y cylchlythyr neu'r ohebiaeth cyn dyddiad y tramgwydd.
- FFURFLEN GAIS AM ABSENOLDEB YN YSTOD Y TYMOR YSGOL a gyflwynwyd gan y rhiant/gofalwr (os ydyw ar gael).
- GWRTHODIAD YR YSGOL I'R FFURFLEN GAIS AM ABSENOLDEB O'R YSGOL wedi'i gwblhau a'i ddychwelyd at y rhiant/gofalwr (os yw ar gael). Dylai ddatgan y rheswm pam nad yw'r gwyliau wedi eu hawdurdodi a dylai roi gwybod i'r rhiant/gofalwr unwaith eto y gallent gael Hysbysiad Cosb Benodedig os byddant yn tynnu eu plentyn allan o'r ysgol.
- OS NA CHWBLHAWYD FFURFLEN GAIS AM ABSENOLDEB, COPI O LYTHYR GWRTHOD ABSENOLDEB ÔL-WEITHREDOL a anfonwyd gan yr ysgol at y rhiant/gofalwr yn dweud bod yr ysgol wedi cyfeirio'r mater at yr ALLI ac y gellid cyhoeddi Hysbysiad Cosb Benodedig.
- UNRHYW DYSTIOLAETH YCHWANEGOL MEWN PERTHYNAS Â'R ABSENOLDEB, h.y. llythyr neu neges gan riant/gofalwr ayb. Sylwch, oni bai fod rhiant/gofalwr yn cyfaddef i wyliau, yna dylid ei gofnodi fel 'O' ar y gofrestr, gan nad ydym yn profi gwyliau anawdurdodedig, rydym yn profi absenoldeb heb ganiatâd yr ysgol.
- TYSTYSGRIF PRESENOLDEB SY'N RHYCHWANTU 'CYFNOD Y TRAMGWYDD' YN UNIG - y cyfnod y gofynnir am hysbysiad cosb ar ei gyfer. Rhaid i'r dystysgrif hon gael ei llofnodi a'i dyddio gan y Pennaeth.
- TYSTYSGRIF PRESENOLDEB AR GYFER Y 12 MIS DIWETHAF wedi'i llofnodi a'i dyddio gan y Pennaeth. Gwnewch yn siŵr nad oes codau 'N' gan y dylai unrhyw beth nad oes rheswm ar ei gyfer fod wedi'i nodi gydag 'O'.

Ceisiadau i gyflwyno Hysbysiad Cosb Benodedig

Pan fydd ysgolion, yr Heddlu neu ALLI cyfagos yn gwneud cais i gyflwyno Hysbysiad Cosb Benodedig, ymchwilir i'w cais a'r GLIA fydd yn ei weithredu, ar yr amod bod:

- Amgylchiadau'r achos yn bodloni'r meini prawf sydd wedi eu nodi yn y Cod Ymddygiad hwn;
- Y disgybl wedi cofrestru mewn ysgol o fewn ardal Consortiwm De Ddwyrain Cymru;
- Yr holl dystiolaeth sydd ei hangen yn cael ei chyflwyno i'r GLIA, er mwyn iddynt bennu a chyflawnwyd trosedd dan Adran 444(1) neu 444(1A) Deddf Addysg 1996 neu Adran 108 Deddfa Addysg ac Arolygiadau 2006;
- Na fyddai cyflwyno Hysbysiad Cosb Benodedig yn gwrthdaro â strategaeth ymyrryd arall sydd eisoes yn ei lle neu gosb gorfodi arall sydd yn cael ei

phrosesu, a bod disgwyl rhesymol i'r defnydd o Hysbysiad Cosb Benodedig wella presenoldeb y plentyn yn yr ysgol.

Ymateb i geisiadau i gyflwyno hysbysiadau cosb benodedig

Yn dilyn y rhybudd a gyhoeddwyd gan yr ysgol neu'r Heddlu, mae gan rieni gyfnod o 15 (tri diwrnod ychwanegol ar gyfer postio) diwrnod ysgol i ymateb. Yn ystod y cyfnod hwnnw, ni chaniateir i'r disgybl fod yn absenol heb awdurdod. Gellir cynnwys y fath wybodaeth yn y llythyr rhybudd swyddogol, os cyflwynwyd y fath lythyr.

Bydd y GLIA yn ymateb i'r holl geisiadau gan ysgolion neu'r Heddlu o fewn 10 diwrnod ysgol o'r dyddiad y daeth y cais i law. Pan fyddant yn fodlon bod yr holl feini prawf perthnasol wedi eu bodloni, bydd yr ALI yn cyhoeddi hysbysiad cosb benodedig.

Hysbysiadau Cosb Benodedig ar gyfer gwyliau heb awdurdod.

Pan fydd yr Hysbysiad Cosb Benodedig y gwnaed cais amdano mewn ymateb i absenoldeb heb awdurdod sydd yn gysylltiedig â gwyliau, neu mewn perthynas â throedd dan adran 108 Deddf Addysg ac Arolygiadau 2006, ni fydd y llythyr rhybudd ffurfiol a'r cyfnod gwella 15-diwrnod yn berthnasol.

Monitro ac Adolygu

Bydd pob Hysbysiad Cosb Benodedig yn cael ei gofnodi ar gronfa data sydd yng ngofal ALI unigol, i sicrhau na fydd Hysbysiadau Cosb Benodedig yn cael eu dyblygu ac i werthuso effeithiolrwydd y broses.

Disgyblion sydd wedi eu gwahardd

Nid yw pwerau'r hysbysiad cosb benodedig yn ymestyn i gynnwys disgyblion sydd wedi eu gwahardd. Daeth Adran 108 Deddf Addysg ac Arolygiadau 2006 i rym ym mis Hydref 2010 a diwygia adran 16 Deddf Troedd ac Anrhefn 1998 i ymestyn pwerau'r heddlu i symud disgyblion sydd wedi eu gwahardd i leoliad dynodedig, os yw plentyn neu berson ifanc sydd wedi ei wahardd o'r ysgol yn ei gael ei hun mewn lle cyhoeddus, mewn ardal benodol yn ystod cyfnod penodol ac yn ystod oriau ysgol.

Y drefn ar gyfer Tynnu Hysbysiad Cosb Benodedig Yn Ei Ôl

Unwaith y bydd wedi ei gyflwyno, ni ellir tynnu Hysbysiad Cosb Benodedig yn ôl heblaw bod y Gwasanaeth Lles Addysg wedi ei fodloni bod:

- Yr Hysbysiad Cosb Benodedig wedi cael ei gyflwyno i'r person anghywir;
- Nad oedd defnyddio Hysbysiad Cosb Benodedig yn cydymffurfio â'r Cod Ymddygiad hwn;
- Y cafodd yr Hysbysiad Cosb Benodedig ei ddsbarthu i'r cyfeiriad anghywir;
- Amgylchiadau'r achos yn sail i dynnu'r hysbysiad yn ôl (cyfiawnhad rhesymol).

Yr hawl i apelio

Nid oes unrhyw hawl apelio statudol yn erbyn cyflwyno hysbysiad cosb, ond dylai rhieni sy'n dymuno herio Hysbysiad Cosb Benodedig gyflwyno cwynion i'r Gwasanaeth Lles Addysg a/neu ddewis wynebu achos cyfreithiol yn Llys yr Ynadon dan adran 444 Deddf Addysg 1996, lle y gall yr holl faterion sy'n gysylltiedig â'u Hysbysiad Cosb Benodedig gael eu trafod a'u clywed yn llawn.

Talu Hysbysiadau Cosb Benodedig

Bydd manylion y trefniadau talu yn cael eu cynnwys ar yr hysbysiad cosb. Pan fydd wedi'i dalu, caiff atebolrwydd y rhieni ei ryddhau am y cyfnod dan sylw ac ni ellir ei erlyn wedyn o dan rymoedd gorfodi eraill am yr un cyfnod â'r hysbysiad.

Os bydd yr Hysbysiad yn cael ei dalu cyn pen 28 diwrnod, £60 fydd y swm sy'n daladwy, neu £120 os telir cyn pen 42 diwrnod. Ni dderbynnir taliadau gan rieni ar ôl 42 diwrnod a ni ellir eu talu mewn rhandaliadau.

Bydd ALI unigol yn cadw'r refeniw o'r Hysbysiadau Cosb er mwyn talu costau gweinyddol yn unig sydd ynghlwm wrth brosesu Hysbysiad Cosb Benodedig, bydd yr hyn sy'n weddill yn mynd i goffrau Cronfa gyfunol Cymru.

Methu â thalu Hysbysiadau Cosb Benodedig

Bydd methu â thalu Hysbysiad Cosb Benodedig yn arwain at erlyniad am y cyfnod sy'n cwmpasu'r Hysbysiad Cosb Benodedig dan Adran 444 Deddf Addysg 1996.

Cydraddoldeb a'r Iaith Gymraeg

Rhaid i'r penderfyniad i gyflwyno Hysbysiadau Cosb Benodedig gydymffurfio â deddfwriaeth a rheoliadau eraill sy'n berthnasol, er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu defnyddio mewn ffordd deg a chyson, ac mewn ffordd sydd wedi ystyried amgylchiadau'r plentyn/plant a'r teuluoedd dan sylw. Mae'r rhain yn cynnwys, ond nid wedi eu cyfyngu i'r canlynol:-

- Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011
- Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011
- Deddfa Hawliau Dynol 1998

Mae Cynllun Cydraddoldeb Strategol y Cyngor yn cwmpasu'r ystod eang o faterion y byddai angen eu hystyried, yn ôl pob achos unigol.

LLYTHYR CYNGHOROL I YSGOLION

Annwyl (enw'r rhiant)

Enw'r disgybl:

Dyddiad geni:

Dyddiad:

Yr wyf wedi adolygu cofnod presenoldeb eich plentyn, a phryderaf wrth nodi ei fod ef/hi wedi colli o leiaf 10 sesiwn (5 diwrnod ysgol) oherwydd absenoldeb heb awdurdod hyd yn hyn yn ystod y flwyddyn academaidd hon.

Atodaf gopi o gofnod presenoldeb eich plentyn gan eich atgoffa mai y chi, fel rhiant/gofalwr plentyn sydd wedi ei gofrestru yn yr ysgol hon, sydd yn gyfrifol yn ôl y gyfraith am sicrhau bod eich plentyn yn mynychu'n gyson.

Mae pob ysgol yn rhannu penderfyniad di droi'n ôl Llywodraeth Cymru i godi lefelau presenoldeb a chyrhaeddiad disgyblion er mwyn sicrhau'r cyfle gorau posibl ym mywyd i'n plant.

Dan Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003, mae gan yr Awdurdod Lleol y pŵer i gyflwyno Hysbysiad Cosb Benodedig i bob un o blant rhieni/gofalwr sydd yn methu â mynychu'r ysgol yn rheolaidd.

Mae Hysbysiad Cosb Benodedig yn ffordd gynnar o atal mwy o gyfnodau ymestynnol o absenoldebau heb awdurdod, ac maent yn arwain at ddirwy o £120, sydd yn cael ei ostwng i £60 os telir y swm cyn pen 28 diwrnod o'r dyddiad y cafodd yr hysbysiad ei gyflwyno. Bydd methu â thalu hysbysiad cosb yn arwain at erlyniad dan Ddeddf Addysg 1996.

Gallaf felly ddweud wrthy ch y bydd yr ysgol yn monitro presenoldeb eich plentyn o ddyddiad y llythyr hwn ac os bydd unrhyw achos pellach o absenoldebau heb awdurdod, rhoddir ystyriaeth i gyflwyno Hysbysiad Cosb Benodedig.

Mae cymorth ac arweiniad ynglŷn â phresenoldeb ar gael gan yr ysgol neu'r Awdurdod Lleol, fodd bynnag, os oes gennych unrhyw ymholiadau penodol ynghylch y llythyr hwn, mae croeso i chi gysylltu â mi ar y rhif ffôn uchod.

Yn gywir,

Pennaeth

Atodiad 3

Hysbysiad Cosb Benodedig - Rhestr Wirio Cyfnod Absenoldeb Anawdurdodedig

Enw'r disgybl		Dyddiad Geni				Rhyw		Cymwys am PYaDd	
---------------	--	-----------------	--	--	--	------	--	-----------------------	--

1. Pwy sydd â chyfrifoldeb rhiant dros y disgybl? Enwch y person sydd â gofal o ddydd i ddydd os yw'n wahanol

Cyfrifoldeb Rhiant	Gofal o ddydd i ddydd

2. Ydy'r cyfnod o absenoldeb wedi golygu bod y disgybl wedi methu o leiaf 10 sesiwn ysgol?

Ydy		Na	
-----	--	----	--

3. A yw'r rhiant a enwir wrth ateb cwestiwn 1 wedi cael Hysbysiad Cosb Benodedig yn flaenorol?

Ydy		Na	
-----	--	----	--

Os felly, rhowch fanylion:

4. A wnaeth y rhiant gais i'r ysgol am wyliau yn ystod y cyfnod yr hoffech roi Hysbysiad Cosb Benodedig ar ei gyfer?

Do		Na	
----	--	----	--

Os 'do' beth oedd y rheswm dros wrthod? *Atodwch gopiâu o'r ohebiaeth a gyfnewidiwyd.*

Os 'na' esboniwch pam fod amheuaeth o wyliau anawdurdodedig.

5. Oes gan y disgybl Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)? Os felly, rhowch y manylion isod.

6. A oes gan y disgybl Anabledd o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010?

Oes		Na	
-----	--	----	--

7. A oes unrhyw amgylchiadau eithriadol neu bersonol y dylai'r Cyngor fod yn ymwybodol ohonynt?

8. A yw'r disgybl wedi cael gwyliau blaenorol neu gyfnod hir o absenoldeb yn y flwyddyn academaidd y cymerwyd y gwyliau anawdurdodedig ynddi?

9. A yw rhiant wedi bod mewn cysylltiad â'r ysgol mewn perthynas â'r absenoldeb?	Ydy		Na	
--	-----	--	----	--

10. A yw Cod Ymddygiad CDDdC wedi cael ei ystyried?	Ydy		Na	
---	-----	--	----	--

Llenwyd y ffurflen gan

Enw		Teitl:		Dyddiad:	
-----	--	--------	--	----------	--

Atodiad 4

CAIS AM HYSBYSIAD COSB BENODEDIG ABSENOLDEB ANAWDURDODEDIG

Disgybl a gofrestrwyd yn Ysgol:	
---------------------------------	--

Gwybodaeth am y Disgybl

Enw'r disgybl		Dyddiad Geni				Rhywedd		Cymwys am PYaDd	
Cyfeiriad:									
Rhif Ffôn Cartref:		Rhif Ffôn Symudol:							

Gwybodaeth am y Rhiant/Gofalwr

Enw llawn y rhiant/gofalwr:									
Cyfeiriad <i>(os yw'n wahanol i'r uchod):</i>									
Rhif Ffôn Cartref:		Rhif Ffôn Symudol:							
Perthynas â'r Disgybl									

Enw llawn y rhiant/gofalwr:									
Cyfeiriad <i>(os yw'n wahanol i'r uchod):</i>									
Rhif Ffôn Cartref:		Rhif Ffôn Symudol:							
Perthynas â'r Disgybl									

Dyddiadau'r Absenoldebau:

Roedd y disgybl a enwir uchod yn absennol o'r ysgol ar y dyddiadau canlynol ac fe'u cofnodir ar gofrestr yr ysgol fel absenoldeb anawdurdodedig. (Atodwch dystysgrif gofrestru sy'n dangos y cyfnod)

A wnaeth y rhieni ofyn am awdurdod cyn eu gwyliau?	Do		Na	
--	----	--	----	--

A ymatebodd yr ysgol yn ysgrifenedig i wrthod awdurdodi'r gwyliau?	Do		Na	
--	----	--	----	--

Atodwch gopïau o'r holl ohebiaeth.

Datganiad:

Fi yw Pennaeth/Pennaeth Dros Dro yr Ysgol a enwir. Rwy'n ardystio bod y cais hwn am gosb benodedig wedi'i ystyried yn unol â Pholisi Presenoldeb yr Ysgol. Hyd eithaf fy ngwybodaeth, nid oes unrhyw amgylchiadau eithriadol i'w hystyried.

Wrth wneud y cais hwn, rwy'n cadarnhau na fyddai camau o'r fath yn gwrthdaro â strategaethau ymyrraeth eraill sydd eisoes ar waith neu fesurau gorfodi eraill sydd eisoes yn cael eu prosesu. Gallaf gadarnhau hefyd fod corff llywodraethu'r ysgol hon wedi adolygu ei bolisi presenoldeb ac wedi cytuno y bydd yr ysgol hon yn gofyn i'r Awdurdod Lleol gyflwyno Hysbysiadau Cosb Penodedig mewn achosion priodol.

Enw		Llofnod		Dyddiad:	
-----	--	---------	--	----------	--

Atodiad 5

HYSBYSIAD COSB BENODEDIG RHESTR WIRIO ABSENOLDEB ANAWDURDODEDIG

Adran 444, Deddf Addysg 1996

Bydd gwybodaeth a roddir ar y ffurflen yn cael ei defnyddio mewn camau cyfreithiol o dan y Ddeddf uchod mewn perthynas â diffyg presenoldeb yn yr ysgol os cyhoeddir Hysbysiad Cosb Addysg ac nid ydyw wedi cael ei dalu. Gofynnaf i'r Awdurdod Lleol ystyried rhoi Hysbysiad Cosb i riant/rieni* y disgybl canlynol:

Hysbysiad Cosb Benodedig - Rhestr Wirio Absenoldeb Anawdurdodedig

Enw'r disgybl		Dyddiad Geni				Rhywedd		Cymwys am PYaDd	
---------------	--	--------------	--	--	--	---------	--	-----------------	--

1. Pwy sydd â chyfrifoldeb rhiant dros y disgybl? Enwch y person sydd â gofal o ddydd i ddydd os yw'n wahanol

Cyfrifoldeb Rhiant	Gofal o ddydd i ddydd

2. Ydy'r cyfnod o absenoldeb wedi golygu bod y disgybl wedi methu o leiaf 10 sesiwn ysgol?

	Ydy		Na	
--	-----	--	----	--

3. A yw'r rhiant a enwir wrth ateb cwestiwn 1 wedi cael Hysbysiad Cosb Benodedig yn flaenorol?

	Ydy		Na	
Os felly, rhwch fanylion:				

4. Beth yw hanes presenoldeb y disgybl?

5. Oes gan y disgybl Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)? Os felly, rhwch fanylion isod.

6. A oes gan y disgybl anabledd o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010?

	Oes		Na	
--	-----	--	----	--

7. A yw'r teulu'n hysbys i Wasanaethau eraill, e.e. Gwasanaethau Plant, Gwasanaeth Troseddwy'r Ifainc, CAMHS?

	Ydy		Na	
--	-----	--	----	--

Os 'ydy' rhowch fanylion.

8. A oes unrhyw amgylchiadau nodedig i'w hystyried, e.e.:
iechyd meddwl, profedigaeth, deinameg y teulu/trais
domestig?

Oes

Na

Os 'oes' rhowch fanylion ac atodwch unrhyw dystiolaeth.

9. A gysylltwyd â'r rhiant mewn perthynas â'r
absenoldebau? e.e. galwad ffôn, llythyr, cyfarfod.

Do

Na

Os 'do' rhowch fanylion ac atodwch unrhyw dystiolaeth.

10. A yw Cod Ymddygiad CDDdC wedi cael ei ystyried?

Ydy

Na

Llenwyd y ffurflen gan

Enw

Teitl:

Dyddiad:

Atodiad 6

CAIS AM HYSBYSIAD COSB BENODEDIG

ABSENOLDEB ANAWDURDODEDIG - Adran 444, Deddf Addysg 1996

Bydd gwybodaeth a roddir ar y ffurflen yn cael ei defnyddio mewn camau cyfreithiol o dan y Ddeddf uchod mewn perthynas â diffyg presenoldeb yn yr ysgol os cyhoeddir Hysbysiad Cosb Addysg ac nid yw wedi cael ei dalu. Gofynnaf i'r Awdurdod Lleol ystyried rhoi Hysbysiad Cosb i riant/rieni* y disgybl canlynol:

Disgybl a gofrestrwyd yn Ysgol:	
---------------------------------	--

Gwybodaeth am y Disgybl

Enw'r disgybl		Dyddiad Geni				Rhywedd		Cymwys am PYaDd	
Cyfeiriad:									
Rhif Ffôn Cartref:				Rhif Symudol:	Ffôn				

Gwybodaeth am y Rhiant/Gofalwr

Enw llawn y rhiant/gofalwr:									
Cyfeiriad (os yw'n wahanol i'r uchod):									
Rhif Ffôn Cartref:				Rhif Symudol:	Ffôn				
Perthynas â'r disgybl									

Enw llawn y rhiant/gofalwr:									
Cyfeiriad (os yw'n wahanol i'r uchod):									
Rhif Ffôn Cartref:				Rhif Symudol:	Ffôn				
Perthynas â'r disgybl									

Dyddiadau'r Absenoldebau:

Roedd y disgybl a enwir uchod yn absennol o'r ysgol ar y dyddiadau canlynol ac fe'u cofnodir ar gofrestr yr ysgol fel rhai anawdurdodedig. (Atodwch dystysgrif gofrestru sy'n dangos y cyfnod)

--	--	--	--

Sut y cysylltwyd â'r rhiant ynglŷn â'r absenoldebau anawdurdodedig?	
---	--

A yw'r teulu'n adnabyddus i wasanaethau eraill?	Ydy		Na	
---	-----	--	----	--

Atodwch gopïau o'r holl ohebiaeth.

Datganiad:

Fi yw Pennaeth/Pennaeth Dros Dro yr Ysgol a enwir. Rwy'n ardystio bod y cais hwn am gosb benodedig wedi'i ystyried yn unol â Pholisi Presenoldeb yr Ysgol. Hyd eithaf fy ngwybodaeth, nid oes unrhyw amgylchiadau eithriadol i'w hystyried.

Wrth wneud y cais hwn, rwy'n cadarnhau na fyddai camau o'r fath yn gwrthdaro â strategaethau ymyrraeth eraill sydd eisoes ar waith neu fesurau gorfodi eraill sydd eisoes yn cael eu prosesu. Gallaf gadarnhau hefyd fod corff llywodraethu'r ysgol hon wedi adolygu ei bolisi presenoldeb ac wedi cytuno y bydd yr ysgol hon yn gofyn i'r Awdurdod Lleol gyflwyno Hysbysiadau Cosb Penodedig mewn achosion priodol.

Enw		Llofnod		Dyddiad:	
-----	--	---------	--	----------	--

Atodiad 7

Hysbysiad Cosb BENODEDIG [A.444A DEDDFA ADDYSG 1996]

Darllenwch y nodiadau isod yn ofalus os gwelwch yn dda.

Rhan 1

Os yw plentyn o oed ysgol gorfodol sydd wedi ei gofrestru mewn ysgol, yn methu mynychu'r ysgol yn rheolaidd, neu'n methu mynychu darpariaeth arall, mae rhiant/gwarcheidwad yn euog o drosedd dan a.444 Deddf Addysg 1996.

At sylw: (Teitl)

(Enwau cyntaf)

(Cyfenw)

(Cyfeiriad)

(Cod post)

Rydych yn rhiant/gwarcheidwad (enw a chyfeiriad y plentyn) a elwir yn "y plentyn" yn yr hysbysiad hwn) sydd yn ddisgybl cofrestredig yn (enw'r ysgol) a atgyfeiriwyd i fynychu darpariaeth arall/ nad yw wedi ei g/chofrestru mewn ysgol, ond y mae'r awdurdod lleol wedi gwneud trefniadau iddo/iddi fynychu darpariaeth addysg arall.

Ar (dyddiad/dyddiadau) rhwng (dyddiad) a (dyddiad) fe fethodd y disgybl (enw) fynychu ysgol (enw'r ysgol) yn rheolaidd. Mae'r hysbysiad hwn yn rhoi cyfle i chi dalu a dirwy yn lle cael eich erlyn am y drosedd a nodwyd uchod. Swm y ddirwy yw £60. Os byddwch yn talu'r ddirwy o fewn y terfynau amser a nodir isod, ni chymerir unrhyw gamau pellach yn eich erbyn mewn cysylltiad â'r drosedd sydd wedi ei nodi yn yr hysbysiad hwn.

Dylid talu o fewn 28 diwrnod. Os telir ar ôl 28 diwrnod ond o fewn 42 diwrnod mae'r gosb yn dyblu i £120. Dylid talu **noder manylion y swyddfa** a gellir gwneud hynny'n bersonol yn ystod oriau agor y swyddfa, **noder oriau agor y swyddfa** neu drwy bostio'r hysbysiad hwn gyda siec neu archeb bost.

Ni fydd rhandaliadau na thaliadau hwyr yn cael eu derbyn a ni anfonir llythyr atgoffa. Os na ddaw tâl i law erbyn (noder y dyddiad 42 diwrnod o'r dyddiad cyflwyno) byddwch yn cael eich erlyn am y drosedd ac fe allech wynebu dirwy o hyd at £2,500.

Cyflwynwyd yr hysbysiad hwn gan **enw, manylion swyddogol y swydd, nodwch enw'r ALI.**

Dyddiad cyflwyno:

Rhan 2

Cwblhewch y canlynol a dychwelwch yr hysbysiad hwn gyda'ch tâl i:

Nodwch Enw a Chyfeiriad yr ALI

Enw:

Cyfeiriad:

Atodaf dâl o £.....

Llofnod.....

Dyddiad:

NODIADAU

Manylion cyswllt

Os oes gennych unrhyw ymholiadau ynghylch yr hysbysiad hwn, cysylltwch â ***nodwch manylion cyswllt, teitl swydd ac adran, rhif ffôn, rhif ffacs a chyfeiriad***

Swm y gosb

Mae swm y gosb fel a ganlyn:

Os telir o fewn 28 diwrnod £60. Os telir o fewn 42 diwrnod £120.

Cod ymddygiad

Cyflwynir yr hysbysiad hwn yn unol â chod ymddygiad lleol (dylem gynnwys y teitl llawn ynghyd â'i ddyddiad neu'i Rhifyn) a luniwyd gan Consortiwm De Ddwyrain Cymru a ***nodwch enw'r ALI***. Dylid cyfeirio unrhyw gwestiynau neu ohebiaeth ynghylch y cod at ***enw'r cyswllt, adran o fewn cyfeiriad yr awdurdod a rhif ffôn***.

Tynnu'n ôl

Gall ***nodwch enw'r ALI*** dynnu'r hysbysiad hwn yn ôl os gwelir na ddylid fod wedi ei gyflwyno i chi, neu os na gafodd ei gyflwyno i chi yn unol â chod ymddygiad Consortiwm De Ddwyrain Cymru. Os ydych o'r farn bod yr hysbysiad hwn wedi cael ei gyflwyno heb achos, rhaid i chi gysylltu â'r Awdurdod Lleol a gyflwynodd yr hysbysiad cyn gynted ag y bo modd a gofyn iddynt dynnu'r hysbysiad yn ôl, gan nodi pam, yn eich barn chi y cafodd ei gyflwyno heb achos.

Bydd yr Awdurdod Lleol yn ystyried eich cais ac yn cysylltu â chi i ddweud wrthyhch p'un ai yw'r hysbysiad yn cael ei dynnu'n ôl. Os nad yw'r hysbysiad yn cael ei dynnu'n ôl ac os na fyddwch yn talu, byddwch yn agored i gael eich erlyn am y drosedd.

Taliad

Dylech lenwi'r hysbysiad uchod a'i anfon neu ei ddanfon i'r cyfeiriad penodedig.

Erlyniad

Os na fyddwch yn talu'r gosb, ac os na fydd yr hysbysiad yn cael ei dynnu'n ôl, byddwch yn cael ei erlyn am y drosedd o fethu a sicrhau bod eich plentyn yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd.

Byddwch yn derbyn gwŷs ar wahân ar gyfer hyn, fydd yn rhoi gwybod i chi am amser a dyddiad y gwrandawriad llys. Byddwch yn medru eich amddiffyn eich hun a fe eich cynghorir i gael cynrychiolaeth gyfreithiol.

Atodiad 8

Mae'r ddeddfwriaeth berthnasol sy'n gysylltiedig â Hysbysiadau Cosb Benodedig yn cynnwys:

Deddf Plant 1989

Mae diffiniad o "rhiant" yn golygu rhieni biolegol, p'un ai ydynt yn briod ai beidio; ac mae'n cynnwys unrhyw berson, er nad yw'n rhiant biolegol, sydd â chyfrifoldeb rhiant ac/neu'n gofalu am blentyn neu berson ifanc.

Deddf Addysg 1996

Adran 7	Dyletswydd rhieni i sicrhau addysg i blant o oed ysgol gorfodol;
Adran 8	Diffiniad o oed ysgol gorfodol;
Adran 444(1)	Trosedd: Methu i sicrhau bod disgybl cofrestredig yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd;
Adran 444A	Hysbysiad cosb o ran methu i sicrhau bod disgybl cofrestredig yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd;
Adran 444B	Hysbysiadau cosb: atodol;
Atodiad 444ZA	Cymhwyso adran 444 i ddarpariaeth addysgol arall
Adran 576	Ystyr "rhiant"

Deddfa Addysg ac Arolygiadau 2006

Adran 108	Dyletswydd rhiant mewn perthynas â disgybl sydd wedi ei wahardd.
-----------	--

Atodiad 9

PRO-FORMA YSGOL 1 – Cais am Absenoldeb

Cais am Absenoldeb yn ystod y Tymor Ysgol

Gofynnwn yn garedig i rieni sy'n dymuno gwneud cais am absenoldeb yn ystod y tymor ysgol nodi'r canlynol:

- Nid oes hawl awtomatig i unrhyw absenoldeb yn ystod y tymor felly mae'n rhaid i rieni ofyn am ganiatâd yr ysgol cyn tynnu eu plentyn allan o'r ysgol.
- Bydd yr ysgol yn awdurdodi'r absenoldeb os oes rhesymau eithriadol dros gymryd yr absenoldeb yn ystod y tymor ysgol.
- Bydd yr ysgol yn gofyn i rieni lenwi ffurflen gais am absenoldeb cyn trefnu unrhyw wyliau a/neu ddod i gyfarfod yn yr ysgol.
- Wrth ystyried cais am wyliau yn ystod y tymor ysgol mae'r canlynol yn cael eu hystyried - yr amgylchiadau eithriadol a nodwyd; oedran y plentyn, cam addysg a chynnydd y plentyn ac effeithiau'r absenoldeb y gofynnwyd amdano ar y ddwy elfen, patrwm presenoldeb cyffredinol y plentyn, a'r adeg o'r flwyddyn (ni roddir absenoldeb i ddisgyblion ar gyrsiau arholiad fel arfer);
- Efallai y bydd adegau pan na fydd ysgol eich plentyn yn cytuno i'r absenoldeb, hyd yn oed o dan amgylchiadau eithriadol:
- Bydd Ysgol XXX yn ystyried pob cais am absenoldeb yn unigol.
- Os oes gan rieni blant mewn mwy nag un ysgol, rhaid gwneud cais ar wahân i bob ysgol. Bydd Pennaeth pob ysgol yn gwneud ei benderfyniad ei hun yn seiliedig ar y ffactorau sy'n ymwneud â'r plentyn yn eu hysgol.

Cyn gwneud unrhyw gais am absenoldeb, mae angen i rieni ystyried yn ofalus iawn yr effaith y byddai absenoldeb yn ei chael ar addysg a chynnydd dysgu eu plentyn.

Rhesymau dros beidio â thynnu eich plentyn allan o'r ysgol yn ystod y tymor ysgol:

- Mae tystiolaeth yn dangos y gall hyd yn oed ychydig bach o absenoldeb o'r ysgol effeithio ar gynnydd a chyrhaeddiad eich plentyn.
- Gellid tarfu ar addysg eich plentyn cyn ac ar ôl unrhyw absenoldeb, gan beri iddynt syrthio ar ei hôl hi a'i chael hi'n anodd dal i fyny.
- Am bob wythnos o'r ysgol mae plentyn yn ei cholli, maent yn colli 25 awr o addysg na ellir eu cael yn ôl.
- Tua phob 6 wythnos mae eich plentyn yn cael gwyliau o'r ysgol; Felly, dylech ddefnyddio'r amser hwn i fynd â'ch plentyn ar wyliau.

Cais am Absenoldeb yn ystod y Tymor Ysgol

Llenwch y ffurflen gais isod a'i hanfon at y Pennaeth o leiaf **bedair wythnos** cyn y dyddiad gadael, er mwyn rhoi digon o amser i ystyried eich cais yn briodol. Cyngorior rhieni yn gryf i beidio â chwblhau unrhyw drefniadau gwyliau cyn cael penderfyniad gan yr ysgol am eu cais. Beth bynnag yw'r amgylchiadau, rhaid i'r ysgol dderbyn y ffurflen gais.

At: Pennaeth XXX

Dyddiad:

Rwy'n gofyn am ganiatâd am absenoldeb yn ystod y tymor ysgol ar gyfer fy mhientyn/plant:

Enw llawn:	
Dyddiad Geni:	
Cyfnod o absenoldeb	
O (dyddiad):	
Hyd (dyddiad):	
Nifer y diwrnodau ysgol:	
Yn ystod yr absenoldeb bydd fy mhlentyn yn ngofal:	Enw'r rhiant/gofalwr
	Enw'r rhiant/gofalwr
Dyma'r amgylchiadau eithriadol a'r rheswm dros y cais hwn:	

Os oes gennych blant eraill oedran ysgol yn y teulu, rhowch fanylion os gwelwch yn dda:

Enw	Dyddiad Geni	Ysgol
Enw	Dyddiad Geni	Ysgol
Enw	Dyddiad Geni	Ysgol

	MANYLION Y RHIENI	
	Rhiant/gofalwr 1	Rhiant/gofalwr 2
Enw'r rhiant/gofalwr:		
Perthynas â'r disgybl:		
Llinell Dir		
Ffôn Symudol		
E-bost		

Dychwelwch y ffurflen wedi'i llenwi at XXX. Bydd Ysgol XXX yn ysgrifennu atoch ac yn dweud wrthyich beth yw ei phenderfyniad am awdurdodi eich cais. Peidiwch â chadarnhau unrhyw drefniadau gwyliau hyd nes y cewch gadarnhad o ganiatâd y Pennaeth am absenoldeb yn ystod y tymor ysgol.

At Ddefnydd y Swyddfa yn Unig	
Dyddiad y derbyniodd yr ysgol y cais:	
Presenoldeb ar hyn o bryd %	Absenoldebau anawdurdodedig %
Presenoldeb y llynedd %	Absenoldebau anawdurdodedig %
Nifer y sesiynau ysgol a gymerwyd yn flaenorol fel absenoldeb yn ystod y tymor ysgol:	
Cadarnhad o frodyr a chwiorydd mewn ysgolion eraill:	Oes / Nac oes Os oes, beth mae'r ysgolion eraill yn ei wneud?
Absenoldeb yn ystod y tymor ysgol:	Cytunwyd neu ni chytunwyd (dileer fel sy'n berthnasol) Cod: H – gwyliau teulu y cytunwyd iddo (absenoldeb awdurdodedig) F – gwyliau teulu estynedig y cytunwyd iddo (absenoldeb awdurdodedig) G – gwyliau teulu (ni chytunwyd iddo neu mae'n fwy na'r hyn y cytunwyd iddo – absenoldeb anawdurdodedig)
Llofnod:	
Teitl Swydd:	
Dyddiad:	
Anfonwyd yr hysbysiad o benderfyniad at y rhiant/gofalwr a'r dyddiad yr anfonwyd:	
Unrhyw wybodaeth ychwanegol:	

PRO-FOMRA YSGOL 2 - Caniatâd am Absenoldeb Eithriadol Awdurdodedig

AT RIANT/OFALWR:

Annwyl Riant/Ofalwr

Diolch am eich ffurflen gais am absenoldeb yn ddiweddar.

Ysgrifennaf i gadarnhau y gallaf awdurdodi absenoldeb eich plentyn ar yr achlysur hwn.

Ni awdurdodir ceisiadau am absenoldeb heb ystyriaeth fanwl ac wrth wneud y penderfyniad hwn rwyf wedi derbyn eich rheswm a'ch tystiolaeth ar gyfer yr amgylchiadau eithriadol.

Yn gywir

Pennaeth

Cc. Athro Dosbarth / Ffeil y myfyriwr

PRO-FORMA YSGOL 3 – Gwrthod Cais am Absenoldeb

AT RIANT/OFALWR:

Annwyl Riant/Ofalwr

Diolch am eich cais am absenoldeb yn ddiweddar.

Ar yr achlysur hwn, ni allaf awdurdodi absenoldeb eich plentyn.

Os byddwch yn penderfynu bwrw ymlaen â'ch absenoldeb, yna bydd absenoldeb (enw'r disgybl) yn cael ei farcio fel un anawdurdodedig. Dylwn eich hysbysu y gellir cyfeirio absenoldebau anawdurdodedig at y Swyddog Lles Addysg ac, o dan amgylchiadau penodol, y gallai ystyried rhoi Hysbysiad Cosb ichi mewn perthynas â'r absenoldebau hyn, yn dilyn cais gennyf i i wneud hynny.

Os hoffech drafod y mater hwn ymhellach, mae croeso i chi wneud apwyntiad i'm gweld.

Yn gywir,

Pennaeth

Cc. Athro Dosbarth / Ffeil y myfyriwr

PRO-FORMA YSGOL 4 – Llythyr Gwrthod Absenoldeb Ôl-weithredol

AT RIANT/OFALWR:

Annwyl Riant/Ofalwr

Bydd absenoldeb eich plentyn o'r ysgol yn ddiweddar (dyddiadau) yn cael ei nodi fel un anawdurdodedig. Dylwn eich hysbysu y gellir cyfeirio absenoldebau anawdurdodedig at y Swyddog Lles Addysg ac, o dan amgylchiadau penodol, y gall ystyried rhoi Hysbysiad Cosb Benodedig ichi mewn perthynas â'r absenoldebau hyn, yn dilyn cais gennyf i i wneud hynny.

Os hoffech drafod y mater hwn ymhellach, mae croeso i chi wneud apwyntiad i'm gweld.

Yn gywir,

Pennaeth

Cc. Athro Dosbarth / Ffeil y myfyriwr